**Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**

# GWYBODAETH DDIOGELWCH I HELPU YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU YSGOL AG AMGUEDDFEYDD AMGUEDDFA CYMRU

Nod yr wybodaeth ddiogelwch hon yw eich helpu chi i baratoi ar gyfer eich ymweliad â Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, ac nid yw'n cymryd lle'r angen i chi gynnal eich asesiad risg eich hunan, sy'n berthnasol i anghenion penodol eich grŵp. Does dim modd i ni lenwi, gwirio na llofnodi unrhyw adran o ffurflenni asesiadau risg ysgolion.

Mae ein gwybodaeth ddiogelwch yn amlinellu'r mesurau rheoli y mae'r Amgueddfa yn eu dilyn i osgoi neu leihau risgiau, ynghyd â'r rheolau ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n ymweld. Bydd eich asesiad risg yn cymryd i ystyriaeth oedran, gallu ac anghenion penodol eich grŵp, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch cludiant neu'r tywydd adeg eich ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth ddiogelwch yr Amgueddfa.

Rydyn ni'n argymell bod athrawon yn cyfeirio at y ddogfen 'Health and safety on educational visits' a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU, sydd ar gael yn – https://www.gov.uk/government/publications/health-and-safety-on-educational-visits/health-and-safety-on-educational-visits

Rydyn ni wedi cynnwys dyfyniadau o Bolisi Amddiffyn Plant Amgueddfa Cymru ar ddiwedd y ddogfen hon.

## DATGANIAD DIOGELWCH

Mae Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru yn derbyn yn llawn ei chyfrifoldebau o dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau risg ysgrifenedig a wnaed mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at ymwelwyr sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.

Gallwn eich sicrhau bod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydyn ni wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydyn ni am sicrhau y byddwch chi'n mwynhau ymweliad hwyliog ac addysgiadol.

Mae gennym ni bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud eu gwaith.

Gofynnir yn garedig i athrawon a staff ysgol eraill weithio mewn partneriaeth â Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru trwy oruchwylio'r plant sydd yn eu gofal ar y safle.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw disgyblion trwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys amser cinio.

Rydyn ni'n argymell yn gryf bod arweinwyr grŵp yn ymweld â'r safle ymlaen llaw er mwyn asesu unrhyw risgiau posibl i'w grŵp.

| **CEFNDIR** | |
|---|---|
| Profiad | Daeth oes Big Pit fel pwll glo gweithiol i ben ym 1980, ac agorodd fel amgueddfa ym 1983. Mae'r safle wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers 40 mlynedd. |

| | |
|---|---|
| Manylion y Lleoliad / Atyniad | Gall ymwelwyr ddisgyn 90 metr i grombil y pwll i weld lle'r oedd cenedlaethau o lowyr Cymru'n gweithio. Tywysydd Glofa sy'n arwain pob taith, ac mae'r teithiau'n para rhyw 50 munud.<br><br>Ar yr wyneb, gall ymwelwyr weld *Brenin Glo: Y Profiad Cloddio*, lle daw golau a sain â ffas lo modern yn fyw. Mae'r cyflwyniad clyweledol hwn yn dechrau gyda ffilm fer, ac yn para tua 20 munud.<br><br>Mae Baddondai Pen Pwll yn gartref i bedwar gofod arddangos ac yn defnyddio gwrthrychau a delweddau i adrodd hanes cloddio am lo yng Nghymru. Mae themâu yn cynnwys plant mewn pyllau glo, iechyd, bywyd cartref a chymunedau glofaol. Gallwch chi ddysgu am ddaeareg a'r defnydd o lo, trychinebau glofaol a gwaith achub, rôl ac effaith undebau llafur a gwladoli, a chael golwg fanylach ar gofroddion o'r pwll glo.<br><br>Gall ymwelwyr weld adeiladau gwreiddiol y lofa o gwmpas y safle hefyd, gan gynnwys tŷ'r ffan, tŷ'r injan weindio, efail y gof a'r stablau.<br><br>Mae ymweliad ysgol arferol yn para tua 4 awr. |
| Nifer Ymwelwyr | Rydyn ni'n croesawu tua 120,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae dros 50,000 o'r rhain yn dod mewn grwpiau addysg ffurfiol. |
| Manylion cyswllt | I drefnu ymweliad, trafod manylion eich ymweliad neu drefnu ymweliad ymlaen llaw, ffoniwch ni ar 029 2057 3650. Bydd aelod o staff yr Amgueddfa yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi am gyfleusterau a threfniadau.<br><br>Os ydych chi'n poeni am unrhyw beth ar ôl eich ymweliad neu os cawsoch chi broblemau yn ymwneud â rheolaeth y lleoliad neu iechyd a diogelwch aelodau eich grŵp, byddwn ni'n hapus i drafod y materion hyn gyda chi. |

| **GWYBODAETH GYFFREDINOL** | |
|---|---|
| Anifeiliaid/ Anifeiliaid yn Baeddu mewn Mannau Cyhoeddus | Mae croeso i chi ddod â chŵn i'r safle, ond allwch chi ddim mynd â nhw dan ddaear nac i'r adeiladau na'r mannau arddangos. Rydyn ni'n croesawu cŵn cymorth gydag ymwelwyr â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, ond allwch chi ddim mynd â nhw dan ddaear.<br><br>Mae disgwyl i berchnogion glirio baw eu cŵn. |
| Systemau Cyfathrebu | Os ydych chi'n defnyddio cymorth clyw, dylech newid y gosodiadau i "T" er mwyn gallu clywed sain yr arddangosiadau.<br><br>Gadewch i ni wybod os byddwch chi angen hwylusydd y sesiwn rydych chi wedi'i harchebu i wisgo dolen sain. |

| | |
|---|---|
| | Mae systemau radio dwy ffordd ar gael ym mhob adran o'r Amgueddfa. Mae yna system Gyfathrebu Awdio Uniongyrchol (DAC) sy'n caniatáu cyfathrebu rhwng gwahanol bwyntiau dan ddaear, a rhwng pobl dan y ddaear ac ar yr wyneb. |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Rydyn ni wedi cynnal gwiriad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar bob aelod o staff.<br><br>Mae staff addysg a hwyluswyr allanol sy'n dod i gysylltiad rheolaidd a/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn derbyn archwiliadau trylwyr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| Clirio'r Safle mewn Argyfwng | Mae trefniadau ar waith i glirio'r safle mewn argyfwng. Mae holl staff yr Amgueddfa yn gyfarwydd â'r trefniadau hyn ac yn eu hymarfer yn gyson. Mae ffordd amgen allan o'r daith danddaearol ar gael er mwyn clirio'r safle mewn argyfwng.<br><br>Mae Cyfarwyddiadau Diogelwch Tân ar gael ym mhob adran. Mae'r rhain yn rhoi manylion y trefniadau i'w dilyn os bydd y larwm tân yn canu, ac yn dangos y Mannau Ymgynnull Tân.<br><br>Os bydd angen clirio'r safle bydd larwm yn canu, a dylech chi adael trwy'r allanfa ddiogel agosaf. Bydd staff yr Amgueddfa yn eich cyfeirio at y man ymgynnull. |

| | |
|---|---|
| Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr sydd ag Anghenion Arbennig | Mae Big Pit yn gwneud ei gorau i ddarparu ar gyfer ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni ymlaen llaw i drafod pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig.<br><br>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grŵp sicrhau eu bod nhw'n gwneud trefniadau addas i oruchwylio a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.<br><br>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan Canllawiau Mynediad i Grwpiau - Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru \| Museum Wales neu drwy ffonio 029 2057 3650.<br><br>Nam Corfforol<br>Mae'r rhan fwyaf o'r safle'n hygyrch i bawb, ond am fod rhai llwybrau serth rydyn ni'n argymell bod defnyddwyr cadair olwyn a phobl sydd â phroblemau symudedd yn cael cymorth oedolyn arall. Mae'r llawr yn anwastad mewn mannau, ac mae ardaloedd gyda cherrig mân. Dim ond 4 ymwelydd mewn cadair olwyn gaiff fynd dan ddaear ar y tro.<br><br>Nam ar y Golwg<br>Mae *Brenin Glo: Y Profiad Cloddio* yn cynnwys cyflwyniad clyweledol gyda gwahanol lefelau o olau a lliw. Mae staff yr Amgueddfa yn hapus i adael i ymwelwyr gyffwrdd neu afael mewn amrywiaeth o eitemau.<br><br>Nam ar y Clyw<br>Mae cyflwyniadau clyweledol ym mhob rhan o'r Amgueddfa. Mae dolenni sain ar gael yn yr ardaloedd arddangos. |
| Cymorth Cyntaf | Os oes angen cymorth cyntaf arnoch chi, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa, fydd yn galw rhywun sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf. |
| Teithiau Tywys / Sesiynau dan arweiniad Hwylusydd | Bydd Tywysydd Glofa yn arwain eich taith danddaearol.<br><br>Bydd yr Amgueddfa wedi asesu risgiau'r gweithgaredd dan sylw ac yn eich hysbysu chi ar lafar o'r risgiau hyn a sut maen nhw'n cael eu rheoli. |
| Cyfyngiadau Taldra | Rhaid i blant fod o leiaf 1 metr o daldra i fynd ar y daith danddaearol. |
| Yswiriant / Atebolrwydd Cyhoeddus | Mae gan yr Amgueddfa yswiriant masnachol ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus – mae copi ar gael ar wefan yr Amgueddfa:<br><br>https://amgueddfa.cymru/atebolrwydd/yswiriant/ |
| Plant Coll | Dywedwch wrth blant sy'n cael eu gwahanu oddi wrth eu grŵp i roi gwybod i aelod o staff yr Amgueddfa os ydyn nhw ar goll. Bydd y plant yn cael eu cadw mewn ardal ddiogel tan i'r grŵp eu casglu. Os bydd arweinydd grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll, dylen nhw ddweud wrth aelod o |

| | |
|---|---|
| | staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd y camau priodol. |
| Uchafswm Niferoedd Grwpiau / Goruchwyliaeth | Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn goruchwylio'ch disgyblion **drwy'r amser.**<br><br>Rydyn ni'n argymell y gyfradd ganlynol:<br>• Hyd at 8 oed: 1 oedolyn / 6 phlentyn<br>• 8–11 oed: 1 oedolyn / 10 plentyn<br>• 11–16 oed: 1 oedolyn / 14 plentyn<br><br>Dyma'r cyfraddau y mae'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES) yn eu hargymell a'r gofynion angenrheidiol ar gyfer y daith danddaearol. Dylai arweinwyr grŵp asesu'r risgiau ac ystyried lefel oruchwyliaeth ddiogel a phriodol ar gyfer eu grŵp.<br><br>Caniateir uchafswm grŵp o 90 person ar y safle ar y tro. Byddwn ni'n gofyn i grwpiau o'r maint yma rannu ac ymweld ag ardaloedd gwahanol o'r Amgueddfa ar amseroedd gwahanol.<br><br>Gall pob Tywysydd gymryd 15 person gyda nhw dan ddaear.<br><br>Fodd bynnag, dylai arweinwyr grŵp asesu'r risgiau ac ystyried lefel oruchwyliaeth ddiogel a phriodol ar gyfer eu grŵp. |
| Anghenion Meddygol | Dylech chi roi gwybod i'r Amgueddfa os oes gan unrhyw ddisgybl anghenion penodol neu anhwylder meddygol difrifol. Bydd yn rhaid i ni ystyried a thrafod trefniadau brys gyda chi.<br><br>Os yw'n ddiogel, byddwn ni'n ceisio cynnwys disgyblion ag anhwylder penodol neu anhwylder meddygol difrifol yn y gweithgareddau a gynigir. |
| Ymddygiad Ymwelwyr | Ni ddylai ymwelwyr:<br>• fynd i fannau sydd ar gau i'r cyhoedd<br>• ymddwyn yn afreolus<br>• cyffwrdd ag unrhyw beiriannau sy'n gweithio<br>• dringo ar unrhyw beiriannau ar y safle<br><br>Mae'r Amgueddfa yn cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu ymwelwyr sy'n ymddwyn yn sarhaus neu'n afresymol adael y safle.<br><br>**Rhaid** i unrhyw grwpiau o fyfyrwyr o dan 16 oed fod o dan oruchwyliaeth drwy'r adeg. Arweinwyr y grŵp neu'r oedolion sy'n eu goruchwylio sy'n gyfrifol amdanyn nhw drwy gydol yr ymweliad.<br><br>Gallwn ni wrthod mynediad i grwpiau sydd heb oruchwylwyr. |
| Gwybodaeth cyn ymweld a Map o'r | Bydd llyfryn gwybodaeth cyn ymweld, amserlen eich ymweliad a map o'r safle yn cael eu darparu cyn i chi |

| | |
|---|---|
| Safle | ymweld â ni. Bydd y rhain yn darparu gwybodaeth hanfodol am eich ymweliad. Mae'n bwysig eich bod chi'n ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon. |
| Archwiliadau Safle o'r Cyfleusterau / Ardaloedd | Mae staff yn archwilio'r cyfleusterau'n gyson ac yn cofnodi eu canfyddiadau. |
| Adnabod Staff y Safle | Mae holl staff yr Amgueddfa yn gwisgo bathodynnau adnabod. Mae croeso i chi fynd atyn nhw os oes rhywbeth yn eich poeni. Byddan nhw'n gallu eich helpu chi neu eich cyfeirio at y lle priodol. |
| Traffig | Mae Maes Parcio Bysiau ar gael ger y lle gadael teithwyr wrth y brif fynedfa. |
| Diogelwch yn yr Haul / Tywydd | Does dim angen dillad arbennig ar gyfer y daith danddaearol, ond rydyn ni'n argymell i chi wisgo dillad cynnes ac esgidiau addas.<br><br>Safle diwydiannol awyr agored yw Big Pit, felly gwisgwch ddillad addas mewn tywydd gwael. Rydyn ni'n argymell gwisgo esgidiau cadarn ar y daith danddaearol. Amddiffynnwch eich hun rhag yr haul mewn tywydd braf. |
| Cyfleusterau Lles | <u>Ystafell Cymorth Cyntaf</u><br>Mae ystafell cymorth cyntaf ar Ben y Pwll.<br><br><u>Toiledau</u><br>Mae toiledau, gan gynnwys toiledau anabl, ar bob un o 3 lefel Big Pit.<br><br><u>Cyfleusterau Cinio</u><br>Mae Ystafell Coity yn y Baddondai Pen Pwll yn ystafell ginio/egwyl gyda lle i 70 o bobl. Y cyntaf i'r felin gaiff falu wrth ddefnyddio'r ystafell hon. Bydd biniau a bagiau sbwriel yn cael eu darparu i sicrhau y gall grwpiau adael yr ystafell mewn cyflwr glân a thaclus. |
| Adeilad yr Amgueddfa (Ardaloedd Risg Uchel) | <u>Efail y Gof</u><br>Weithiau mae tân agored yn yr efail. Peidiwch â gadael i blant groesi'r rhwystr.<br><br><u>Brenin Glo: Y Profiad Cloddio</u><br>Mae mannau tywyll, synau uchel, a lefelau amrywiol o olau mewn rhannau o'r cyflwyniad.<br><br><u>Tŷ'r Injan Weindio</u><br>Rhybuddiwch y plant i beidio â cheisio denu sylw'r gyrrwr os yw'r injan yn gweithio. Peidiwch â gadael i blant groesi'r rhwystr. |
| Peiriannau | Mae peiriannau gwreiddiol i'w gweld yn iard yr Efail, y Gweithdy Cadwraeth ac wrth adeilad y Baddondai Pen Pwll. Dylech chi rybuddio'r plant i fod yn ofalus o gwmpas y peiriannau. |
| Dillad / Offer Diogelwch | Mae'r **hunan-achubwyr** fyddwch chi'n eu cludo ar y daith danddaearol yn cynnwys hopcalit. Gall llyncu neu anadlu hwn heb reolaeth fod yn niweidiol. Ni ddylai plant geisio |

| | |
|---|---|
| | agor y rhain heb gyfarwyddyd y Tywysydd Glofa.<br><br>Gall niwed i'r **batris** sy'n cael eu cludo ar y daith danddaearol achosi iddyn nhw ollwng. Yn yr achos hwn, dywedwch wrth y Tywysydd a golchi croen a dillad y person dan sylw ar unwaith. |
| Gweithgareddau dan ddaear | Dylai plant aros gyda'u grŵp drwy'r amser dan ddaear.<br><br>Byddwn ni'n darparu het galed i bob ymwelydd ei gwisgo ar y daith danddaearol.<br><br>Er nad yw Big Pit yn cynhyrchu glo bellach, mae deddfwriaeth diogelwch Deddf y Pyllau Glo yn dal i fod yn berthnasol i Big Pit. Mae yn erbyn y gyfraith i fynd â deunydd sy'n mygu neu eitemau cynheuol dan ddaear. Mae hyn yn cynnwys sigarennau, e-sigarennau, matsis a thanwyr, ffonau symudol, oriawr a chylchoedd allweddi, cyfrifianellau, radios, dyfeisiau electronig ac unrhyw ddeunydd ffotograffig. Bydd yr holl ddeunydd hyn yn cael ei gasglu gan ein Tywyswyr cyn y daith danddaearol, a'i gadw'n ddiogel ar yr wyneb tan ddiwedd y daith. |
| Graean llechi / Cerrig mân | Mae'r rhain ar y llawr mewn mannau. Dylech chi rybuddio'r plant i beidio â'u taflu na chwarae gyda nhw. |
| Llethrau serth | Mae llethr serth y tu allan i'r Ffreutur yn y Baddondai Pen Pwll. Nid yw'n rhan o'r brif daith i ymwelwyr. Dylai plant gael eu rhybuddio i beidio â cherdded, rhedeg neu rolio i lawr y llethr hwn. |
| Diogelwch | Er diogelwch, allwn ni ddim caniatáu bagiau mawr a sachau teithio dan ddaear. Gall staff yr Amgueddfa ofyn i chwilio unrhyw fag gaiff ei gludo i'r safle. |
| Adolygu | Caiff y ddogfen hon a'r wybodaeth ddiogelwch gysylltiedig eu diweddaru'n gyson. |

**Polisi Diogelu Plant**

**Mae ein Polisi Diogelu Plant i'w gweld ar ein gwefan**

**https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi_amddiffyn_plant/**

**Darllenwch y darnau isod cyn eich ymweliad.**

## Cyfrifoldebau Arweinwyr/Athrawon wrth ymweld â'r Amgueddfa

Rydyn ni am sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn ein hamgueddfeydd. Yn ogystal â'n cyfrifoldebau ni, gofynnir i arweinwyr/athrawon grŵp gyflawni eu dyletswyddau nhw hefyd.

Yn benodol, dylai pob arweinydd/athro wneud y canlynol:

- Archebu gweithdai ac ymweliadau ymlaen llaw
- Sicrhau eu bod yn goruchwylio'r plant/pobl ifanc yn eu gofal bob amser
- Os bydd damwain, cysylltu ag aelod o staff yr Amgueddfa fydd yn dilyn ein Gweithdrefnau Argyfwng
- Yn achos plentyn coll, cysylltu ag aelod o staff yr Amgueddfa fydd yn dilyn y drefn berthnasol
- Peidio â meddu ar nac yfed diodydd alcoholig, defnyddio cyffuriau anghyfreithlon nac ysmygu ar eiddo'r Amgueddfa
- Peidio â cham-drin unrhyw blentyn/person ifanc ar lafar nac yn gorfforol
- Sicrhau bod yswiriant digonol yn ei le ar gyfer y grŵp a'r arweinydd
- Dweud wrth y grŵp am yr ymddygiad disgwyliedig yn ein hamgueddfeydd
- Bod yn ystyriol o ymwelwyr a grwpiau eraill sy'n ymweld â'n hamgueddfeydd
- Dilyn Trefniadau Tân Amgueddfa Cymru.

**Arweinwyr/athrawon, sy'n bennaf gyfrifol am les y plant sydd yn eu gofal drwy'r amser.**

**Byddwn ni'n dweud wrth yr arweinydd/athro am unrhyw bryderon (oni bai mai'r unigolyn hwnnw sy'n peri pryder) ac yn cyfeirio'r mater at yr ysgol/sefydliad wedyn.**

**Caiff pryderon am ymddygiad yr arweinydd/athro eu cyfeirio'n syth at yr ysgol/sefydliad ac efallai at yr heddlu hefyd.**

**Oherwydd maint a natur amrywiol ein hamgueddfeydd, mae gennym ni gyfraddau oedolyn-i-blentyn unigol ar gyfer pob safle y dylid eu dilyn am resymau iechyd a diogelwch.**

## Ymddygiad grwpiau tra'u bod yn yr Amgueddfa

Rydyn ni am i bob ymwelydd fwynhau ei amser gyda ni, felly rydyn ni'n disgwyl i bob ymwelydd ddangos cwrteisi a pharch at eraill ac at ein heiddo bob amser.

Ni ddylai arweinwyr grŵp adael i aelodau eu grŵp wneud y canlynol:

- Ymddwyn yn fygythiol, difrïol neu dreisgar
- Bwlio (ar lafar neu'n gorfforol)
- Gwneud sylwadau rhywiaethol, hiliol neu unrhyw sylwadau sarhaus eraill am unrhyw berson neu grŵp arall
- Fandaleiddio eiddo nac arddangosfeydd
- Gadael sbwriel ar eu hôl
- Bwydo, cyffwrdd, dychryn neu frifo unrhyw anifeiliaid sydd yno
- Mynd i ardaloedd dim mynediad neu sydd wedi'u cau i ffwrdd
- Defnyddio iaith anweddus
- Ysmygu
- Yfed alcohol y tu hwnt i'r mannau pwrpasol (e.e. bwytai a mannau picnic) neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Bwyta neu yfed heblaw mewn caffis, bwytai a mannau a gedwir i grwpiau ysgol gael bwyta'u bwyd eu hunain.

Os bydd unrhyw un o'r gofynion uchod yn cael ei dorri, rydyn ni'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r grŵp a/neu ofyn i'r grŵp adael yr Amgueddfa.